



# Perthyn yng Nghrist: cynnig gweledigaeth llawn gobaith o heddwch i bawb

## Cyflwyniad

Bob blwyddyn yn ystod y Grawys mae grwpiau eciwmenaidd lleol yn cymryd amser gyda'i gilydd i fyfyrio ar gynnydd ein gwaith tuag at undod Cristnogol ac i herio eu hunain i weithredu ar y materion hynny yr ydym oll yn ymboeni yn eu cylch. Mae CTBI yn ceisio cefnogi ac annog y gwaith hwn trwy adnoddau sy'n cysylltu â'r prif themâu sydd wedi codi yn ein deialog eciwmenaidd Prydeinig-Wyddelig. Eleni rydym am rannu rhywfaint o'r gwersi sy'n deillio o'n myfyrdodau ar themâu gwrthdaro sy'n seiliedig ar hunaniaeth, rhwystrau i berthyn a'r pwysau sy'n deillio o hynny ar berthnasoedd. Mae'r heriau y byddwn yn eu hystyried yn y gwaith hwn yn rai sy'n ein digalonni ac fe allant ein llethu: dieithrio gwleidyddol, darnio, pegynnu, arwahanrwydd, casineb at y llall a phrofiad a bygythiad o drais. Er gwaethaf graddfa a difrifoldeb yr heriau hyn, mae ein sgyrsiau wedi bod yn rhai sy'n grymuso ac yn llawn gobaith. Down o hyd i gefnogaeth yn yr undod â phobl sy'n rhannu'r un pryder am gymunedau clwyfedig ac sy'n gweld gobaith yn rhodd y ffydd a rannwn, ac yn ganolog i hynny mae addewid Crist o heddwch. Yn yr Ysgrythur rydym nid yn unig yn cael ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i weithredu, ond fe ddown o hyd hefyd i'r ysbrydoliaeth ar gyfer y weithred honno yng Ngair Duw ac esiampl Crist. Ar adeg pan effeithiwr ar yr Eglwys hefyd gan ganlyniadau niweiddiol y naratifau pegynnu ac ymrannu sy'n ceisio diffinio perthyn yn nhermau gwrthod neu eithrio'r arall, mae'n hanfodol ein bod yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith ar undod Cristnogol, gan gynnwys myfyrio hunan-feirniadol ar ein diffygion a'n methiannau ninnau. Gall hyn fod yn fwyfwy anodd wrth i ni ddod ar draws difaterwch a gelyniaeth cynyddol, ond wrth sefyll a siarad gyda'n gilydd gallwn gefnogi ein gilydd a chynyddu effaith ein hymdrechion.




## Wythnos 1

### Presenoldeb a chyd-deithio wrth galon cymunedau

#### Ysgrythur

*Mathew 5: 13-16*

#### Myfyrdod

Pan fyddwn yn ystyried dyfnder ymrannu yn y ddadl gyhoeddus ar lawer o faterion cyfiawnder cymdeithasol ac wrth i ni dystio i'r modd gall ergydion y gwrthdaro dinistriol hwn effeithio ar gymunedau lleol, hawdd teimlo'n ddiymadferth i drawsnewid y gwirionedd hwn sy'n peri'r fath bryder. Hefyd, gall yr elyniaeth y gellir ei brofi weithiau mewn ymateb i alwadau am undod, cynhwysiant, dealltwriaeth neu hyd yn oed ddim ond dadl barchus, fod yn frawychus ac yn llethol.

Mae ein Hysgrythur ar gyfer heddiw yn ein hatgoffa bod gennym rôl bwysig i'w chwarae trwy rannu'r gobaith a gawn yn ein ffydd a her yr egwyddorion moesegol sy'n deillio o'r ffydd honno. Mae eglwysi yn parhau i fod yn sefydliadau pwysig wrth galon cymunedau lleol, gan deithio ochr yn ochr â phobl yn llawenydd a gofidiau mwyaf eu bywydau. Mae'r presenoldeb hwnnw'n cynnig sylfaen i berthynas o ymddiriedaeth. Yn ystod cyfnodau o wrthdaro diweddar, fel ym mhrofiad cymunedau lleol yr effeithiodd terfysgoedd arnynt, rydym wedi gweld bod arweinwyr eglwysi, ochr yn ochr â chynrychiolwyr cymunedau ffydd eraill, yn parhau i gael eu hystyried fel pobl onest, hyd yn oed mewn cymdeithas gynyddol seciwlar. Mae hyn yn creu cyfle i'r Eglwys gyfrannu at adeiladu pontydd, gan helpu i gyrraedd y sawl sydd wedi cael eu dieithrio, eu hynysu, neu sy'n teimlo fel pe baen nhw wedi cael eu gwthio i'r ymylon, gan greu cyfleoedd i gyfarfod a datblygu cyd-ddealltwriaeth. Gall etifeddiaeth y presenoldeb hwn, fu yma ers cyhyd, a'r buddsoddiad mewn cymunedau fod yn rhodd i'r Eglwys ac i'r gymuned ehangach yn ystod amseroedd cythryblus, ond ni ddylem chwaith fod yn naïf ynglŷn â'r ffyrdd y mae arweinyddiaeth fel hyn hefyd wedi gwneud yr Eglwys yn fan lle ceir o llawer o gystadleu yng nghyd-destun gwrthdaro seiliedig ar hunaniaeth. Mae hyn yn daith heriol wrth i ni geisio cyfleu neges o groeso a pherthyn i bawb. Gall cydnabod yn ein deialog eciwmenaidd fod hon yn her i ni oll ein helpu i gyfleu tystiolaeth Gristnogol gynhwysfawr a  dilys mewn byd cyhoeddus sy'n prysur chwalu.

Mae'r Ysgrythur heddiw yn ein galw i fod yn hyderus wrth gofleidio'r cyfleoedd a roddir i ni i ddangos arweinyddiaeth, gan werthfawrogi'r adnoddau sy'n ein cefnogi yn y gwaith hwn. Ar yr un pryd, cawn ein galw i gydnabod gyda gostyngeiddrwydd ein bod yn rhan o gymunedau rhanedig, yn byw y rhaniadau hyn ac yn cael ein galw i siarad yn onest o'r profiad hwnnw yn hytrach na phregethu o bell neu dybio ein bod uwchlaw hyn i gyd.

Er bod ganddi gyfraniad pwysig i'w wneud i'r gwaith o dawsnewid, nid yr Eglwys yn unig sydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb, a gelwir arni i weithio mewn deialog a phartneriaeth ag eraill, gan werthfawrogi'r eu cyfraniad nhw i brofiad y gymuned. Neges bwysig sy'n dod i'r amlwg wrth i ni wrando o fewn CTBI yw'r ffordd mae'r ddadl begynnol ac yhmrannol y deuwn ar ei thraws yn aml yn y cyfryngau yn cyferbynnu â phrofiad bugeiliol yr eglwys leol lle cawn ein hysbrydoli a'n hannog gan yr haelioni, tosturi a gwytnwch a welwn yn y gymuned o'n cwmpas. Mae helpu i gyfathrebu gwirionedd y profiad hwn yn her ac yn gyfle i'r Eglwys.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth

- Beth sy'n rhoi gobaith ac anogaeth i chi am y cyfraniad gall yr Eglwys ei wneud i'r gwaith o adeiladu pontydd a goresgyn rhaniadau mewn cymdeithas?
- Beth yn eich barn chi yw rhai o'r rhwystrau neu'r cyfyngiadau mwyaf arwyddocaol ar rôl yr Eglwys yn y gwaith hwn?
- Pwy yw rhai o'r partneriaid pwysicaf i'r Eglwys ar hyn o bryd yn y gwaith hwn?

## Gweithredoedd

- Ystyriwch y gwahanol ffyrdd y mae cymuned eich eglwys leol yn cyfathrebu â phobl – yn fewnol ac yn allanol. A oes unrhyw beth yn eich synnu wrth i chi fyfyrio ar y negeseuon a gyfleir ynglŷn â sut mae "ein cymuned" yn cael ei ddiffinio yn eich eich cyd-destun?
- Rhestrwch y prif leoedd y mae pobl yn cwrdd ac yn ymgynnull yn y gymuned ehangach – pa mor bresennol yw'r Eglwys yn y gwahanol gyd-destunau hyn? Beth allai oblygiadau hyn fod ar gyfer rôl arweinyddiaeth yr Eglwys ochr yn ochr ag eraill?
- Adolygwch ddulliau gohebu a chyfathrebu diweddar eich Eglwys ac ystyriwch p'un a oes yna unrhyw gyfleoedd y gellid eu datblygu i helpu i rannu'r straeon o undod, estyn allan a gofal sy'n arwyddion o dosturi a gwytnwch y gymuned leol.

## Gweddi

Arglwydd,
Diolchwn am y cyfleoedd a roddwyd i'r Eglwys i ddangos arweinyddiaeth mewn amseroedd cythryblus,
ac am yr adnoddau y gallwn eu rhoi i gymunedau mewn trafferth.
Bendithia'r rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn ein heglwysi,
ac sy'n cadw'r cysylltiadau hyn yn fyw
ac yn tystio i rodd dy gariad sy'n iacháu.
Diolchwn am yr ysbrydoliaeth a welwn
yn ein casgliad o gymunedau
sy'n ceisio ymateb gyda haelioni ac undod
i'r sawl sydd mewn angen.
Boed i'r enghreifftiau hyn fod yn oleuni i fyd sy'n brwydro yn erbyn tywyllwch ymrannu.

Amen.




# Wythnos 2: Y gobaith o berthyn

## Ysgrythur

*Jeremeia 29:11*

## Myfyrdod

Credwn nad ar gyfer Cristnogion yn unig y bwriadwyd Newyddion Da ein ffydd,a bod cariad Duw yn cael ei ymestyn i bawb a wnaed ar ei ddelw ef. Cydnabyddwn hefyd y gall ein gweithredoedd syrthio’n brin o'r weledigaeth hon, gan osod amodau ar y ffordd y byddwn yn derbyn pobl neu’n awgrymu bod yn rhaid iddyn nhw fod yn debyg i ni neu wneud pethau ein ffordd ni er mwyn bod yn rhan o'n cymuned.

Thema sy'n ymddangos dro ar ôl tro yn ein gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw'r angen i fyfyrio ar y gwahaniaeth rhwng croeso a pherthyn. Yn aml, bydd eglwysi yn anelu at fod yn lleoedd croesawgar i bawb, a da hynny, gan fod hyn yn tynnu ar yr arfer o letygarwch a welwn yn yr Ysgrythur drwyddo draw. Yn rhy aml, fodd bynnag, gallwn fod yn fodlon i wneud dim ond cynnig croeso, heb ofyn y cwestiynau dyfnach am yr hyn y byddai'n ei gymryd i greu'r amodau lle gall pawb deimlo eu bod yn perthyn mewn gwirionedd. Efallai bydd gofyn i rai aelodau o'r gymuned wneud lle ar gyfer newid, neu hyd yn oed i roi'r gorau i’r pethau sydd yn eu barn hwy yn bwysig, er mwyn caniatáu i'r gymuned dyfu a chroesawu pobl o gefndiroedd amrywiol. Yn ddiamau, gall hyn fod yn anodd, yn enwedig i'r sawl sydd wedi buddsoddi llawer yn y gwaith o adeiladu'r gymuned. Heb wneud y gofod hwn, allwn ni ddim edrych i mewn i’r posibiliadau newydd y gallpobl â hunaniaethau a safbwyntiau eraill eu cynnig.

Yn ein cymunedau eglwysig mae llawer o bobl sy'n cael trafferth gyda'u hymdeimlad o berthyn. Efallai eu bod yn teimlo fel pe baent wedi cael croeso i ddechrau, ond bod hynny’n golygu bod yn rhaid iddynt newid ac addasu, neu nad yw swyddi o arwain ar gael iddyn nhw. Efallai y bydd eraill yn teimlo nad yw eu cyfraniadau, a oedd unwaith yn bwysig, yn cael eu gwerthfawrogi mwyach, a bod y newidiadau y gofynnir iddynt wneud yn rhy fawr neu'n rhy gostus. Yn aml, does dimatebion hawdd i’r heriau hyn, ond gall ymrwymo i wrando’n eofn helpu pobl i deimlo eu bod nhw’n cael eu gweld a'u clywed wrth i ni chwilio am y ffordd orau o gysoni anghenion gwahanol, gan gadw o'n blaenau weledigaeth Duw o obaith i bawb am y dyfodol. Nid yw bod yn onest ynglŷn â’r brwydrau mewnol hyn yn gwanhau rôl arweinyddiaeth yr Eglwys. Mae'n ein helpu ni i ganfod a dangos empathi ag eraill

sy'n ymdopi â'r tensiynau hyn mewn rhannau eraill o gymdeithas, gan gynnwys yr arweinwyr gwleidyddol sy'n cael eu galw i gynrychioli buddiannau a dyheadau amrywiol er lles pawb.

Wrth geisio cynnig gweledigaeth llawn gobaith i bawb sy'n ymestyn y tu hwnt i'n cymunedau Eglwysig, gelwir arnom hefyd i ystyried anghenion y rhai a allai deimlo bod yr Eglwys wedi cyfrannu at y rhwystrau i berthyn a ddaeth i'w rhan hwy. Yn hanesyddol, cafodd Cristnogaethle breintiedig ym Mhrydain ac Iwerddon. Heddiw, bu dirywiad yn nylanwad yr eglwysi tra bod Cristnogion wedi cymryd llawer o gamau cadarnhaol i groesawu a derbyn amgylchedd cyhoeddus mwy amrywiol a lluosog, ond gallwn fod yn ddall o hyd i weld i ba raddau gall ein dylanwad ddieithrio rhai eraill wrth i ni lunio'r diwylliant.

Gwyddom hefyd nad yw pob safbwynt yn gyson â gweledigaeth o berthyn i bawb. Mae angen gwrthsefyll agweddau ac ymddygiad sy'n ymosod, yn bychanu ac yn dad-ddyneiddio pobl gyda gwirionedd a chyfiawnder. I Gristnogion, mae'r Ysgrythur yn rhoi sylfeini cadarn i ni ar o'r weledigaeth amgen hon, a gynigir mewn ysbryd o gariad. Mae hefyd yn ein herio i godi llais a gweithredu i fynd i'r afael â strwythurau anghyfiawn sy'n rhwystr i ymdeimlad pobl o berthyn. Mae ein gallu i gymryd rhan yn y gwaith hwn yn cael ei gyfoethogi pan fyddwn yn cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth yn ein harweinyddiaeth fel bod ein sgyrsiau a'n cydweithio hefyd yn cael eu cyfoethogi gan safbwyntiau gwahanol.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth


- Allwch chi feddwl am amser pan wnaethoch chi brofi argyfwng perthyn, boed yn yr eglwys neu mewn cyd-destun gwahanol? Beth oedd rhai o'r ffactorau a gyfrannodd at hynny? Allwch chi feddwl am unrhyw gamau gweithredu a allai fod wedi eich helpu chi neu a wnaeth eich helpu yn y sefyllfa honno?
- Pan fyddwch chi'n meddwl am y sawl sy'n cael eu gwthio i'r ymylon yn eich cyd-destun lleol, am bwy ydych chi'n poeni fwyaf? Beth ydych chi'n ei ystyried yw eu hanghenion?
- Lle gwelwch chi arwyddion o wrthdaro ac argyfwng ar sail hunaniaeth yn eich cymuned leol? Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â hyn? Pa ffactorau sy'n gwaethygu'r problemau hyn?

## Gweithredoedd

- Adolygwch rai eitemau o newyddion lleol. Beth, os rhywbeth, sy'n cael ei ddweud am bwy sy'n perthyn, a phwy sydd wedi'i eithrio yn eich cymuned?
- Dewch o hyd i bostiad cyfryngau cymdeithasol neu ddarn barn gan berson yr ydych yn anghytuno ag ef/hi. Ystyriwch a allwch chi nodi unrhyw bwyntiau cyswllt neu werthoedd a rennir a allai eich helpu i gysylltu â'r rhai sy'n dal y safbwyntiau hyn mewn ffordd sy'n cynnal urddas pawb.
- Dewch o hyd i grŵp sy'n gwneud gwaith cadarnhaol i fynd i'r afael â gwrthdaro ar sail hunaniaeth yn eich ardal. Sut gallwch chi chi gefnogi ac annog eu gwaith?

## Gweddi

Dduw pawb,
Helpa ni i ddod o hyd i ffyrdd o i godi pontydd,
yn enwedig lle mae'r gagendor rhwng pobl yn ymddangos yn anobeithiol o eang.
Rho i ni'r dewrder i ni wynebu ein mannau dall
ac ymrwymo i'r sgyrsiau anghyfforddus am gymodi gwahaniaeth
er mwyn helpu pawb i berthyn.
Bydd yn agos at bawb sy'n brwydro â'r teimlad nad ydyn nhw'n perthyn.
Helpa nhw i ddod o hyd i obaith o gysylltiad trwy estyn allan yn dosturiol.
Yn dy drugaredd rho iachâd i'r sawl y mae eu brwydrau gyda hunaniaeth a pherthyn
wedi eu tywys i lawr llwybr casineb a thrais.
Gweddïwn y bydd pawb sy'n teimlo ar goll yn dod o hyd i gartref ynot ti. Amen.




# Wythnos 3

## Cysoni hunaniaethau a phrofiadau

### Ysgrythur

2 Corinthiaid 5: 11-21

### Myfyrdod

Mae digwyddiadau y blynyddoedd diwethaf wedi tanlinellu'r modd y mae  ein bywydau wedi eu cyd-gysylltu, nid yn unig ar lefel y gymuned leol, ond yn rhyngwladol. Ond er gwaethaf pwysau'r dystiolaeth sy'n pwysleisio'r angen i ni ddod at ein gilydd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ddynoliaeth gyfan, mae'n ymddangos bod y grymoedd sy'n ein tynnu ar wahân yn tyfu'n gryfach. Gall deimlo fel bod cymdeithas yn tyfu'n llawer mwy dig a gelyniaethus.

Gyda'i galwad i'r weinidogaeth gymodi, mae gan yr Eglwys gyfle i ddod â gobaith ac iachâd trwy wrando ar y boen sy'n gorwedd o dan y dicter: colli gobaith am y dyfodol, ymdeimlad o ddirywiad neu ddiffyg cyfleoedd, dieithrio, ynysuaneu deimlo nad oes neb yn eich cynnal nac yn malio amdanoch. Mae profiad bugeiliol yr Eglwys yn ein tywys at wrando pwrpasol, sydd nid yn unig yn golygu clywed poen pobl, ond bod yn sylwgar i'w hanghenion ac eiriol dros eu hawliau.

Un o'r prif rwystrau i ddod â phobl at ei gilydd i weithio at ddyfodol gwell yn aml yw'r diffyg ymdeimlad o orffennol a rennir. Mae gwahanol brofiadau a safbwyntiau ynglŷn â'r gorffennol yn creu rhaniadau dwfn a gall anghyfiawnderau neu wrthdaro yn y gorffennol daflu cysgod mawr dros gymunedau.  Mae'r Eglwys yn dod â'r gobaith o gymod at y cwestiynau hyn a'r argyhoeddiad y gellir ffurfio cysylltiadau newydd o barch, gwirionedd a chyfiawnder hyd yn oed lle na ellir dadwneud anghyfiawnderau'r gorffennol.

Nid yw'r Eglwys yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn o ymraniadau – ddoe neu heddiw – o bellter ond yn hytrach fel rhan o'r gymuned, sy'n dioddef yr un clwyfau a thensiynau. Mae rôl yr Eglwys o arwain yn golygu bod ganddi gyfrifoldeb arbennig i hunan-fyfyrio'n beirniadol ac i fod yn batrwm o

haelioni a gras wrth gymryd camau sy'n gwneud ein hymrwymiad i gymodi yn rhai gwirioneddol a gweladwy.

Gwnawn hynny yn ymwybodol bod rhodd Duw o gymod ar gael i bob un ohonom, ar lefel bersonol, fel ffynhonnell adnewyddu a gobaith. Gall y neges hon fod yn achubiaeth i'r sawl sydd efallai wedi cychwyn ar lwybrau niweidiol neu ddinistriol i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd yn ôl i le o berthyn a chysylltiad.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth

- Pan fyddwch chi'n meddwl am y prif glwyfau sy'n sail i densiynau yn eich cymuned, beth sy'n dod i'r meddwl?
- Lle gwelwch chi drafod y rhain neu gyfeirio atynt?
- Ydych chi'n gweld yr Eglwys yn dod â gweledigaeth o gymodi i'r cwestiynau hyn – os na, pam ?

## Gweithredoedd

- Nodi cyfleoedd i weddïo am gymodi yng nghyd-destun eich eglwys. Allech chi fynd ati i enwi rhaniadau penodol yr hoffech eu gweld yn cael eu gwella?
- Archwilio cyfleoedd i gyfathrebu am gymodi y tu hwnt i'r eglwys, gan gynnwys y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol; sut y gellid defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â materion poenus yn eich cymuned?
- Ystyriwch gynnig astudiaeth Feiblaidd ar thema cymodi i archwilio pa faterion y mae hyn yn eu hamlygu yn eich cyd-destun chi.

## Gweddi

Duw trugaredd a thosturi,
Gweddïwn y gallwn fod yn driw i'th galwad
i weithio dros gymod yn ein cymunedau.
Boed i ni barhau i herio ein hunain
i ymestyn tu hwnt i'n cylch cysurus ni
i fod yn agos at y rhai sydd mewn trafferth.
Helpa ni i wrando gyda thosturi a phwrpas,
yn enwedig pan fydd profiadau eraill
yn heriol neu'n annifyr.
Cadwa obaith ger ein bron
hyd yn oed lle bu clwyfau'r gorffennol yn ddwys
a'r briwiau'n ddwfn,
yn dy gariad di, gwneir popeth yn newydd.

Amen.




# Wythnos 4

## Creu Gofodau Gras

### Ysgrythur

*Iago 1:19-27*

### Myfyrdod

Pan fyddwn yn wynebu amgylchedd cyhoeddus dig a swnllyd, mae'n demtasiwn encilio i chwilio am fannau diogel. Gall y camdrin a'r camliwio a welwn yn y byd ar-lein deimlo'n arbennig o fygythiol.

Wrth i ni fyfyrio ar ein detholiad o'r Ysgrythur ar gyfer heddiw, cawn ein hysgogi i feddwl ynglŷn â'r modd y mae ein ffydd yn llunio ein dulliau o gyfathrebu ac ymgysylltu ag eraill. Nid yw'n syndod fod pwyslais mawr ar bwysigrwydd gwrando cyn gweithredu – ar Air Duw ac ar ein gilydd – fel y bydd yr hyn a ddywedwn yn yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n galwad fel disgyblion.

Gall encilio i'r mannau sy'n gwneud dim ond adleisio ein barn arbennig ni roi ymdeimlad o ddiogelwch. Nid peth negyddol yw hyn bob amser. Yn aml mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn ein sgyrsiau eciwmenaidd yn gwerthfawrogi'r undod a brofwyd wrth dreulio amser gyda'r rhai sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n pryder am gymdeithas. Gall hyn fod yn ffynhonnell o gefnogaeth ac anogaeth y mae angen dybryd amdano er mwyn cryfhau ein hymrwymiad iwaith cyfiawnder cymdeithasol mewn cyd-destun ehangach. Mae bod yn ymwybodol o'r cyd-destun ehangach hwn yn hanfodol am ei fod yn peri i ni fod yn agored i wahanol safbwyntiau, yn herio ein rhagdybiaethau, ac yn ein helpu i asesu sefyllfaoedd cymhleth yn gytbwys.

Mewn cyd-destun eglwysig ar hyn o bryd mae cryn fyfyrio a deialog ynglŷn ag ymgysylltu â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae rhai eglwysi wedi penderfynu tynnu'n ôl o lwyfannau penodol, neu atal eu cyswllt dros dro, oherwydd pryderon am arferion anfoesegol a niweidiol, a'r effaith ar les unigolion a chymunedau. Mae eraill wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i gadw a buddsoddi yn eu presenoldeb ar y llwyfannau hyn er mwyn ymdrechu i gynnig lle ar gyfer tystiolaeth Gristnogol ddilys, gan wahodd deialog a gweddi.

Cafwyd dau brif edefyn i'n hargymhellion yn ein sgyrsiau. Yn gyntaf, y byddwn yn archwilio gyda'n gilydd y posibiliadau a gynigir gan gyfryngau cymdeithasol ar gyfer cysylltu, estyn allan, "gwrando cymdeithasol" – gan ddefnyddio'r llwyfannau hyn fel adnodd i glywed pryderon na fyddai fel arall yn

ein cyrraedd, ac i rannu ein negeseuon. Mae angen cefnogi'r ymgysylltu hwn gydag addysg am risgiau, peryglon a chamliwio ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallai mwy o gydweithrediad ar draws gwahanol eglwysi a chyda phartneriaid eraill ein galluogi i ymhelaethu ar negeseuon ac ymateb yn strategol pan fydd bygythiadau yn codei, megis pan fydd cymunedau neu sectorau o gymdeithas yn cael eu camgynrychioli. Mae profiadau cadarnhaol diweddar yn y maes hwn i CTBI yn cynnwys cydweithio ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas i gyfleu neges o undod i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ar yr un pryd, argymhellir bod eglwysi yn helpu i herio ein gor-ddibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol a'r amgylchedd ar-lein, gan greu cyfleoedd am gyswllt personol, go-iawn. Gall yr amgylchedd ar-lein deimlo'n llawer mwy diogel oherwydd bod gennym fwy o reolaeth dros sut y byddwn yn rhyngweithio, ond gall y posibiliadau ar gyfer mwy o gysylltiad ac effaith orbwyso risgiau cyswllt personol.

Boed ar-lein neu bersonol, ni ddylem ddibrisio’r cyfraniad y gallwn ei wneud i osod naws sgwrs, creu mannau gras a chysylltu’n llawn ffydd, a hynny wedi’i seilio ar wrando, lle mae ein cyfraniad at ddeialog yn adlewyrchu'r gwerthoedd sy'n deillio o'n ffydd.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth

- A yw eich defnydd o gyfryngau cymdeithasol wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar unrhyw newidiadau?
- Pa mor effeithiol mae'r Eglwys wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn eich cyd-destun chi?
- Sut hoffech chi weld cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio ar gyfer cysylltu ac estyn allan?


## Gweithredoedd

- Ystyriwch a allech chi ddatblygu neu addasu strategaeth cyfryngau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yng nghyd-destun eich eglwys i gefnogi cydweithredu eciwmenaidd wrth i chi rannu negeseuon o wahodd, estyn allan a chroeso i'r sawl a allai fod yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt neu eu bod wedi eu dieithrio?
- A allech chi rannu rhai enghreifftiau o bethau sydd wedi achosi pryder i chi’n ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol? Sut mae'r Eglwys wedi bod yn ymateb i'r heriau hyn a beth mwy y gellid ei wneud?
- Allech chi nodi partneriaid posibl y tu hwnt i'r eglwysi sy'n cyfathrebu'n effeithiol mewn ffyrdd sy'n ceisio codi pontydd a hyrwyddo cynhwysiant a helpu i wneud y negeseuon hyn yn amlycach?

## Gweddi

Ddw Cariadus,

Gweddïwn y byddwn bob amser yn cofio
treulio amser i wrando ar dy Air,
ac i wrando ar ein gilydd,
gyda chalonnau agored i glywed dy gynllun i ni.
Boed i ni dy gadw di
wrth galon ein holl gyfarfyddiadau
boed yn bersonol neu ar-lein
a boed i’n ffydd yn ein harwain
yn y modd y byddwn yn cyfathrebu
gan creu gofodau gras
yng nghanol dicter
a gwrthdaro.
Amen.




# Wythnos 5

## Arweinyddiaeth

### Ysgrythur

*Mathew 5:1-12*

### Myfyrdod

Ar adeg pan fod hunaniaeth Gristnogol yn cael ei dynnu i mewn i ofod dadleuol gwrthdaro cymdeithasol, gall fod yn ddefnyddiol troi at y Gwynfydau i’n hatgoffa o sut y cawn ein galw i ddangos arweinyddiaeth mewn cymdeithas a sut, hyd yn oed pan fydd byw yn ôl y gwerthoedd hynny yn profi'n gostus, nad ydym ar ein pennau ein hunain. Nid yw arweinyddiaeth Gristnogol wedi'i ddatgysylltu oddi wrth farn y cyhoedd oherwydd bod yr alwad i garu ein cymydog yn alwad i wrando ar bryderon y gymuned, ond mae'r gwrando a'r ymgysylltu hwn wedi'i angori yng ngwerthoedd ein ffydd. Efallai y byddwn yn teimlo nad oes angen dweud hyn, ond mewn myfyrdodau diweddar ynglŷn â’r her o wyrdroi ffeithiau neu gamliwio treftadaeth a hunaniaeth Gristnogol, awgrymwyd y gallai fod angen i eglwysi fyfyrio'n feirniadol ar gynnwys eu negeseuon, oherwydd yn rhy aml byddwn yn syrthio i'r fagl o adweithio ac ymateb yn unigl, gan ganiatáu i'n hiaith gael ei bennu gan eraill. Yn ddi-os mae herio iaith ac agweddau ymrannol yn bwysig, ond mae’r angen i fynd ati i ddatgan ein gwerthoedd yn gadarnhaol yr un mor bwysig, hyd yn oed lle gall hyn ymddangos yn amlwg.

Mae'r Gwynfydau yn ein hatgoffa na fydd sefyll dros yr hyn sy'n iawn a cheisio gweithredu'n gyfiawn yn dod â gwobrau ar unwaith. I'r gwrthwyneb, gall yr ymrwymiad i gyfiawnder yn aml adael pobl yn agored i ymosodiad. Dros ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelsom arweinwyr eglwysig, yn ogystal ag arweinwyr mewn sectorau eraill o gymdeithas, yn cael eu beirniadau ac weithiau’n cael ei difenwi oherwydd eu safbwynt ar faterion cyfiawnder cymdeithasol. Ar hyn o bryd, trwy waith Rhwydwaith Ffoaduriaid yr Eglwysi a'n cefnogaeth i broject yr Eglwys Noddfa rydym yn arbennig o ymwybodol o'r ymosodiadau ar y sefydliadau hynny sy'n gweithio i gefnogi a chyd-sefyll â phobl sy'n ceisio lloches, ond cafwyd adroddiadau tebyg hefyd gan bobl sy'n gweithio i fynd i'r afael â hiliaeth, i hyrwyddo deialog rhyng-grefyddol neu eiriol dros gyfiawnder hinsawdd.

Gall dangos ein cefnogaeth i'r rhai sy'n rhoi arweinyddiaeth gadarnhaol wneud cyfraniad pwysig. Ar adeg pan mae llawer o bobl yn teimlo wedi eu dieithrio oddi wrth brosesau gwleidyddol, gall fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at waith yr arweinwyr gwleidyddol hynny sy'n rhan o ymdrechion i ddod â phobl at ei gilydd ac annog mwy o Gristnogion i ystyried gwleidyddiaeth fel maes lle gallant ddangos arweinyddiaeth. Yn ddiweddar mae eglwysi hefyd wedi cael eu hunain yn gorfod codi llais i amddiffyn yr hawl i brotestio heddychlon a daangos nad yw hyn yn anghydnaws â'n cefnogaeth i ymgysylltu cadarnhaol â phrosesau gwleidyddol.

Ar adegau o densiwn a thrafferthion, mae cymunedau yn gwerthfawrogi gweld eu harweinwyr yn dod at ei gilydd. Gall hyn helpu i roi ymdeimlad o ddiogelwch yn ogystal â gobaith. Gall eglwysi Cristnogol yn enwedig weithio mewn partneriaeth â chymunedau ffydd eraill, gan fod yn ganolbwynt yn aml i ymatebion cymunedol ar y cyd i heriau, am eu bod mewn safle sefydledig o barch yn y gymuned ond hefyd oherwydd canfyddiadau cadarnhaol o'r gwerthoedd sy'n sail i'w harweinyddiaeth.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth


- Ydych chi'n teimlo bod yr Eglwys ar hyn o bryd yn gwneud digon i gefnogi ac annog arweinyddiaeth gadarnhaol mewn sectorau eraill o gymdeithas?
- Pa negeseuon am arweinyddiaeth wleidyddol, os o gwbl, ydych chi'n eu clywed yn eich cyd-destun eglwysig? Hoffech chi weld unrhyw newidiadau yn hynny o beth?
- Lle gwelwch chi bartneriaid yn y gwaith hwn y tu hwnt i'r Eglwys yn y gymuned leol?

## Gweithredoedd

- Ymchwiliwch i ohebiaeth a chyfathrebu diweddar ar faterion cyfiawnder cymdeithasol yng nghyd-destun eich eglwys leol. A yw hyn yn rhagweithiol ynteu'n adweithiol yn bennaf? Ydyn ni'n cymryd yn ganiataol bod pobl yn deall o ba gyfeiriad y down ni o ran ein gwerthoedd?
- Ystyriwch estyn allan i ddangos undod â sefydliad neu unigolyn yn eich cymuned mewn sefyllfa lle bu gelyniaeth tuag at eu gwaith.
- Aseswch pa mor barod y mae eich  eich eglwys i ymateb i sefyllfa o argyfwng. A yw'r cysylltiadau yn bodoli i ganiatáu i chi ymuno neu gynnull ymateb cymunedol ar y cyd? Os na, pa gamau all fod angen i chi eu cymryd?

## Gweddi

Arglwydd,
Gweddïwn dros bawb sydd mewn swyddi arweinyddiaeth yn ein cymunedau,
Iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi
i weithio er lles pawb.
Gweddïwn yn arbennig dros yr arweinwyr hynny
sydd wedi bod yn destun cam-drin neu ymosodiad
am eu hymrwymiad i waith cyfiawnder.
Ysbrydola bob un ohonom
i ganfod y cyfleoedd cywir
i ddangos arweinyddiaeth
mewn ysbryd o bartneriaeth ac undod.
Lle mae cymunedau dan bwysau
gweddïwn fod eu harweinwyr
yn dodi gwahaniaethau o'r neilltu
i ddod â phobl at ei gilydd
a rho iddynt y rhodd
trawsnewidiol o obaith. Amen




# Wythnos 6

## Grymuso arweinwyr iau

### Ysgrythur

*Luc 2: 41-52*

### Myfyrdod

Yn ein sgyrsiau am ymraniadau cymdeithasol, mae thema ieuenctid yn amlwg oherwydd pryderon am sut mae'r ymraniadau hyn yn effeithio ar eu bywydau hwy a'u lles. Bydd ffocws y sgwrs yn wahanol mewn gwahanol leoedd. Mewn rhai eglwysi mae pryder am absenoldeb ieuenctid, ac mewn eraill, cyfyng gyngor am y ffordd orau i ymateb i'w presenoldeb, gan wneud lle i'w harweinyddiaeth, eu gweledigaeth a'u pryderon. Wrth i ni geisio ymgysylltu â'r gymuned ehangach y tu hwnt i'r eglwys, gall rhaniadau cenedlaethau fod yn rhwystr gwirioneddol i gyfathrebu'n effeithiol â phobl ifanc.

Mae'r Ysgrythur heddiw yn ein hysgogi i feddwl am y gwahaniaeth mewn disgwyliadau a all effeithio ar arweinyddiaeth pobl ifanc. Yn aml bydd eglwysi yn meddwl am bobl ifanc yn nhermau'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt, yn hytrach na'r rhoddion sydd ganddynt i'w cynnig. Yn 2018 cynhaliwyd Cyfarfod Rhyng-Eglwysig Iwerddon ar y thema 'A ywe realiti yn fwy na syniadau? Roedd 'Myfyrio ar les pawb mewn cymunedau rhanedig' yn cynnwys panel o arweinwyr ifanc o *Youth Link*, sef project eciwmenaidd i gefnogi pobl ifanc a gweinidogaeth ieuenctid. Rhannodd cyfranogwyr ag arweinwyr eglwys y profiad o dyfu i fyny mewn cymunedau a glwyfwyd gan wrthdaro, sut yr effeithiodd hynny ar eu bywydau, a'r heriau iechyd meddwl a effeithiodd arynt hwy yn ogystal â'u teuluoedd a'u ffrindiau, y bywydau a gollwyd i hunanladdiad, cyffuriau ac i droseddu, a'r diffyg cefnogaeth i'w cadw mewn addysg a gwaith.

Roedd y realiti dyddiol a ddisgrifiwyd ganddynt yn sioc i lawer o arweinwyr yr eglwys. Wrth ysgrifennu ar ôl y digwyddiad, nododd y Cyd-gadeirydd yr Esgob Brendan Leahy ei fod wedi'i daro gan sut mae'r heriau hyn "yn cael eu chwyddo o dan chwyddwydr di-baid y cyfryngau cymdeithasol". Sylwodd:

Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, ysbrydolodd ein cyfranogwyr ifanc ni â'u gobaith mawr. Mae'r gonestrwydd a'r gwytnwch a ddangoswyd ganddynt yn herio ac yn annog pob un ohonom wrth iddyn nhw ymbil yn angerddol ar i bob person ifanc sydd wedi gwneud dewisiadau gwael yn y gorffennol gael cyfle arall. Mae gwers yn hynny i bob un ohonom wrth i ni fyfyrio ar ein gobeithion, a'n methiannau, wrth i ni geisio cynnig arweinyddiaeth a gofal bugeiliol mewn cymunedau rhanedig.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth

- Sut ydych chi'n gweld yr Eglwys yn buddsoddi mewn pobl ifanc – a all fod wedi eu heithrio?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n teimlo bod eich Eglwys yn cydbwyso'r angen am gefnogaeth a grymuso yn ei dull o ymwneud â phobl ifanc?
- A oes materion sy'n effeithio ar bobl ifanc rydych chi'n teimlo na allwch eu trafod? Beth allai eich helpu i deimlo'n fwy hyderus am hyn?

## Gweithredoedd


- Archwiliwch i'r ffyrdd mae eglwysi yn cefnogi pobl ifanc yr effeithiodd trais arnynt trwy'r *Rhwydwaith Synergedd* – https://wearesynergy.org.uk A allai unrhyw un o'r syniadau hyn fod yn berthnasol i'ch cyd-destun chi?
- Archwiliwch i'r adnoddau a gynigir gan *Roots for Churches i* gefnogi ymgysylltu rhwng cenedlaethau yn yr Eglwys: https://www.rootsontheweb.com/i-am-looking-for/resources-for-intergenerational-church  A allai'r rhain gynnig unrhyw syniadau newydd ar gyfer ymgysylltu yn eich cyd-destun chi?
- A oes unrhyw fathau o ddeialog dan arweiniad ieuenctid yn eich cyd-destun y gallech eu cefnogi neu ymuno â nhw?

## Gweddi

Arglwydd,

Gweddïwn dros arweinwyr iau yn ein cymuned
Iddynt gael eu grymuso
i ddod â'u doniau a'u talentau,
eu gwybodaeth a'u profiad,
i'r gwaith o adeiladu dyfodol gwell i bawb.
Bydd yn agos at yr holl bobl ifanc hynny
sy'n cael trafferth gyda phroblemau hunaniaeth a pherthyn
yng nghanol pwysau a all deimlo'n ddi-baid.
Boed i'r Eglwys fod yn hael
Wrth estyn allan a chysylltu â phobl ifanc
er budd pawb.

Amen.




# Wythnos 7

## Rhannu gobaith ar gyfer y dyfodol

### Ysgrythur

*Mathew 13:1-23*

### Myfyrdod

Roedd Iesu yn aml yn defnyddio damhegion i gysylltu â phobl trwy eu gwahodd i fyfyrio ar wahanol safbwyntiau trwy stori, yn hytrach na cheisio ennill dadleuon. Mae'r Ysgrythur heddiw yn ein hatgoffa na fydd y straeon a'r negeseuon rydyn ni'n eu rhannu bob amser yn cael eu gwerthfawrogi a'u deall gan bawb ond gallant fod yn drawsnewidiol mewn rhai mannau.

Fe’n gelwir i fyfyrio ar y cyfleoedd a all ddod i ni yng nghyd-destun ein heglwys leol i gysylltu â phobl drwy stori, gan symud i ffwrdd o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn gwahanol benderfyniadau polisi, i ymgysylltu â straeon y rhai yr effeithiwyd arnynt. Fel eglwysi gallwn seilio'r gwaith hwn mewn gweddi, gan annog pobl i glywed straeon am y rhai sy'n cael trafferth a gweddïo dros eu hanghenion.

Fe’n gwahoddir hefyd i fyfyrio ar sut y gallwn rannu ein straeon ein hunain mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i gysylltu. Mae rhannu ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o gymuned yn fwy boddhaol a chadarnhaol pan fydd hyn yn cael ei werthfawrogi gan eraill, yn hytrach na’i wrthod. Mae'r Eglwys yn cael y cyfle i greu mannau cyfarfod, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, lle gall pobl rannu eu hunaniaeth mewn cyd-destun o sensitifrwydd a pharch at ei gilydd, a dod at ei gilydd i drafod heriau sy’n gyffredin iddynt.

Mae'r Ysgrythur heddiw yn ein hatgoffa gall y gwaith hwn o rannu ein ffydd fod yn anodd. Mae'n bwysig meddwl am y lle y cawn ninnau gefnogaeth. Yr heriau a wynebwn o ran p beidio â chael atebion hawdd ac i ofyn am ymrwymiadau dros y tymor hir. Gall bod yn garedig wrthym ein hunain ein helpu i ddangos gras ac empathi i eraill, gan osod y sylfeini i ni estyn allan mewn ffydd i bawb sydd angen derbyn neges o obaith ac iachâd.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth

- Allwch chi feddwl am nofel, drama neu ffilm a'ch helpodd i ddeall profiadau neu safbwyntiau gwahanol i'ch un chi? Beth oedd y ffactorau a'ch helpodd i gysylltu â'r stori?
- Yn eich profiad chi, pa fathau o bynciau sy'n anghyfforddus neu'n pegynnu mewn sgwrs ar hyn o bryd? Sut mae'r Eglwys yn ymateb i'r heriau hyn?
- Allwch chi feddwl am unrhyw enghreifftiau o arddangos hunaniaeth sy'n eich gwneud chi'n anghyfforddus? Beth fyddai'n rhaid newid er mwyn i chi weld hyn fel rhywbeth cadarnhaol?

## Gweithredoedd

- Allech chi bartneru â rhywrai yn y celfyddydau i gael digwyddiad adrodd straeon am faterion hunaniaeth a pherthyn yn eich cymuned?
- Allech chi hwyluso deialog am heriau cenhadaeth a bod yn ddisgybl yn y cyd-destun presennol?
- Nodwch gamau hunan-ofal y gallech eu cymryd i gefnogi eich hunan yr wythnos hon.

## Gweddi

Dduw cariadus,
Mewn byd lle mae angen straeon o obaith a chysylltiad ar bobl
helpa ni i fod yn ddyfeisgar ac yn greadigol yn ein hymdrechion
i rannu ein ffydd a'r gobaith a gawn ynoch chi.
Rho i ni'r dewrder i ni rannu ein straeon ein hunain
gyda gwirionedd a pharch
ac i wrando ar straeon pobl eraill
gyda chalonnau agored
gan ganiatáu i obaith ffynnu a thyfu.

Amen.